

Erthyglau, llythrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys y Pedair Tudalen.

Trip Ysgol Haf y Gweinidogion 2017

Dywed John Morgans yn ei lyfr "Our Holy Ground" fod pob milltir sgwâr yng Nghymru yn llawn o hanes Cristnogol Cymreig. A gwelwyd fod y geiriau yma yn sicr yn wir ar drip Ysgol Haf y Gweinidogion yn ddiweddar.

Llanboidy oedd y pentref cyntaf yr ymwelwyd ag ef ac aeth pawb mewn i gapel annibynnol "Y Trinity" a chael hanes y capel sy'n dyddio nôl i 1800.

Yna croesi'r heol i Eglwys Sant Brynach lle mae yna gerflun arbennig iawn. "Galar" neu "Grief" yw ei enw ac mae'n gerflun o ferch ifanc yn llawn galar yn pwysu yn erbyn wal. Y cerflunydd Goscombe John a'i gwnaeth ac y mae yn cynrychioli galar gwedd Powell Maesgwyn ar ôl colli ei gŵr. Roedd Powell Maesgwyn a fu fyw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ddyn arbennig a'i gariad yn fawr iawn a bobl Llanboidy a'r ardal.



Y lleoliad nesaf oedd capel Henllan Amgoed. Mae gan y capel le pwysig yn hanes yr Annibynwyr. Adroddwyd hanes y capel ac yn arbennig y ddadl fawr rhwng yr uchel galfinydd Lewis Thomas a'r isel galfinydd David John Owen ar ddechrau'r deunawfed ganrif.

Yna ymlaen i Landysilio ac wrth fedd Waldo Williams adroddwyd hanes y bardd a'r meddyliwr mawr yn ogystal â gwrando ar ychydig o'i farddoniaeth.

Ar ôl bod wrth fedd Waldo Williams fe wnaeth pawb groesi'r heol am banded yn Nant-y-ffin.

Yna yn ôl ar y bws i Gaerfyrddin gyda geiriau John Morgans fod pob rhan o Gymru yn llawn o'n hanes Cristnogol Cymreig yn sicr wedi eu profi i fod yn wir am y rhan fach hon o Gymru.

Guto Llywelyn



parhad o'r dudalen flaen

Duw ar yr Ysgol, pwyswn yn daer ar bob gweinidog i wneud ymdrech i fynd iddi er mwyn cael dysgu a chymdeithasu.

Y Pwyllgor Gweinyddol a'r Cyngor

Asgwrn cefn gweithgarwch yr Undeb yw'r Cyngor, sy'n dod ag Annibynwyr o bob rhan o'r wlad i Gregynog ddwywaith y flwyddyn, a'r Pwyllgor Gweinyddol, sef Ymddiriedolwyr yr Undeb, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn Llanbadarn, ac unwaith fel rhan o'r Cyfarfodydd Blynyddol. Diolch i bawb sy'n dod iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith. Mae'n bleser cael gweithio gyda chwi, a bod yn dyst i'r gofod mawr yr ydych ei gymryd wrth gyflawni eich gwaith.

Newidiadau

Yn yr Undeb hwn, mae newidiadau yn digwydd ymhlith rhai o'n swyddogion. Daeth tymor Dilwyn Roberts-Young i ben fel Cadeirydd ein Pwyllgor Staffio, a diolchwn iddo am ei waith ei gwmi a'i arweiniad dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae tymor Cadeirydd y Cyngor, hithau, yn dod i ben eleni, wedi chwe blynedd o wasanaeth. Mae'n diolch i'r Dr Fiona Gannon yn fawr, a da yw cael cyhoeddi y bydd yn awr yn dod yn Gadeirydd y Pwyllgor Staffio. Dymunwn bob bendith iddi yn y gwaith hwnnw.

Dymunwn fendith hefyd ar Gadeirydd newydd y Cyngor, sef Mr Dafydd Roberts, Trefor, Caernarfon. Bu Dafydd yn gefnogol

i waith yr Undeb ers blynyddoedd maith, a llongyfarchwn ef yn wresog ar gael ei ethol.

Mae eraill o swyddogion Adranau'r Cyngor y mae eu tymhorau yn dod i ben eleni: y Parchg Carys-Ann, Hywel Wyn Richards, Dyfrig Rees, Gwynndaf Richards a Jeff Williams. Diolchwn iddynt am eu gwaith. I lenwi'r bylchau, daw'r Parchg Dylan Rhys Parry, Jeff Williams a Gwyn Elfyn Jones i fod yn Gadeiryddion yr Adran Cenhadaeth, yr Adran Dinasyddiaeth ac Adran yr Eglwysi a'u Gweinidogaeth (yn y drefn honno), a'r Parchg Robin Samuel a Mr Alun Charles Caerfyrddin i fod yn Ysgrifenyddion yr Adran Dinasyddiaeth ac Adran yr Eglwysi. Diolch iddynt oll am eu parodrwydd i ymgymryd â'r gwaith.

Cydenwadol

I droi at ein gweithgarwch cydenwadol, prin fod angen dweud fod hwnnw'n dal i fynd yn ei flaen. Bu'r Parchg Gwylfa Evans yn ein cynrychioli mewn amrywiol bwyllgorau yn Llundain, Mrs Margaret Davies, Caerdydd, yn ein cynrychioli ym Mhen-y-bont ar Stellenbosch yn Ne Affrica ar ddechrau mis Gorffennaf i gynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd, lle y byddaf yn llywyddu'r gweithgareddau. Bu'r dasg o drefnu'r gynhadledd wedi bod yn ddirifol o anodd, ond mae angen diolch i Hefin am iddo frysio i gynorthwyo pan oedd yn fain arnom. Nid oes angen manylu mwy, dim ond diolch am y gymwynas fawr a wnaethpwyd â ni.

Gan i mi yn awr sôn am Hefin Jones, rhaid diolch iddo am gymwynas arall y mae wedi ei wneud â mi. Fel y gŵyr llawer ohonoch, mae rhai ohonon yn troi am Stellenbosch yn Ne Affrica ar ddechrau mis Gorffennaf i gynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd, lle y byddaf yn llywyddu'r gweithgareddau. Bu'r dasg o drefnu'r gynhadledd wedi bod yn ddirifol o anodd, ond mae angen diolch i Hefin am iddo frysio i gynorthwyo pan oedd yn fain arnom. Nid oes angen manylu mwy, dim ond diolch am y gymwynas fawr a wnaethpwyd â ni.

swydd bresennol ar ddiwedd mis Awst eleni, ac mae'n briodol ein bod yn diolch iddo am ei gyfraniad dros y blynyddoedd diwethaf ac yn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Taith Arolwg y Cyfundebau

Rhaid sôn yn fyr am daith yr wyf wedi bod ynglŷn â hi yn ystod y misoedd diwethaf, sef Taith 'Arolwg y Cyfundebau'. Dechreuodd ym Mhontypridd ym mis Hydref, ac erbyn hyn mae'r Dr Hefin Jones a minnau wedi ymweld ag wyth o gyfundebau, a Robin Samuel wedi dod gyda mi i un. Pwrpas y daith yw rhannu canlyniad yr arolwg y gofynnodd y gynhadledd i ni ei wneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2014, ac mae'r cyfundebau i gyd wedi bod yn hynod groesawgar, ac yn fywiog a chadarnhaol wrth drafod yr hyn oedd yn cael ei ddweud wrthynt. Diolch i bawb am eu croeso.

Gan i mi yn awr sôn am Hefin Jones, rhaid diolch iddo am gymwynas arall y mae wedi ei wneud â mi. Fel y gŵyr llawer ohonoch, mae rhai ohonon yn troi am Stellenbosch yn Ne Affrica ar ddechrau mis Gorffennaf i gynhadledd Cymdeithas Annibynwyr y Byd, lle y byddaf yn llywyddu'r gweithgareddau. Bu'r dasg o drefnu'r gynhadledd wedi bod yn ddirifol o anodd, ond mae angen diolch i Hefin am iddo frysio i gynorthwyo pan oedd yn fain arnom. Nid oes angen manylu mwy, dim ond diolch am y gymwynas fawr a wnaethpwyd â ni.

150

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 150

Rhif 29

Gorffennaf 20, 2017

50c.

Dathlu 175 ym Mrynaman

Roedd 21 Mai 2017 yn ddiwrnod pwysig yng Nghapel Gibeia,

Brynmanan, gan fod yr eglwys yn dathlu 175 mlynedd ers ei sefydlu ym 1842 ar gost o £240 gyda 56 o aelodau. Nid y capel presennol yw'r un gwreiddiol wrth gwrs. Codwyd y Gibeia cyntaf ym 1842 ond cyn pen dim amser roedd y lle'n rhy fach a'r aelodaeth wedi codi i 240 ac fe'i hailadeiladwyd ym 1856 cyn ei ehangu a'i adnewyddu ym 1889.

Eglwys Watcyn Wyn

Dyma'r eglwys lle magwyd Watcyn Wyn ac yn ei lyfr *Atgofion* mae'n dweud: 'Nid wyf yn gwybod yn iawn pa bryd y bum yn y cwrdd y tro cyntaf; tebyg fy mod yn ieuanc iawn ac ym mraich fy mam. Y mae y tro cynta wyf yn cofio yn aros yn fy nghof o hyd, wrth gwrs, yn hen dŷ cwrdd Gibeia, Gwterfawr, ar y llawr yn eistedd yn ymyl fy mam a fy nhad yr wyf yn cofio yn dda fy mod yn teimlo yn bur gartrefol, nad oedd y lle yn ymddangos yn newydd a dieithr yn y byd i mi, yr hyn sydd yn profi, efallai, fy mod wedi bod yno lawer gwaith o'r blaen, ond yn anmwybodol o hynny.'

Byddent yn eistedd ar fainc yn ymyl y tân glo a oedd yn gwresogi'r adeilad. Roedd ei



dad Hesekiah Williams yn un o sylfaenwyr yr achos a chyn codi'r capel cynhaliwyd gwasanaethau yn rhai o gartrefi'r pentref a Chwmgarw Ganol, cartref Watcyn Wyn oedd un o'r rhain. Nid ym Mrynaman y ganwyd Watcyn Wyn a byddai'n hoffi adrodd nad oedd ei fam adref pan ganwyd ef – roedd hynny'n eithaf gwir gan ei bod yn ymweld â'i chwaer oedd yn byw yng Nghwmllynfell pan ddaeth Watcyn Wyn i'r byd. Felly fe'i ganwyd yng Nghwmllynfell, fe'i magwyd ym Mrynaman a bu'n byw yno hyd nes iddo symud i Ferthyr am gyfnod wedi colli ei wraig ifanc yn 24 oed ar enedigaeth plentyn ac fe'i claddwyd yn Rhydaman ym 1905.

Dathlu'r Achos

Un o emynau Watcyn Wyn, 'Wel dyma hyfryd fan i droi at Dduw',



YSTOD EANG Y GWAITH

Dyma drydedd Rhan Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn y Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhydaman



CWM

Gwyddoch erbyn hyn fod Ysgrifennydd Cenhadol Cyngor Ewrop y Genhadaeth Fydeang (CWM), y Parchg Wayne Hawkins, yn dod ar ymweliad â ni fel Undeb ddwywaith y flwyddyn i drafod a datblygu syniadau. Mae'r ymweliadau hyn yn arbennig o fuddiol bob tro gan mai da o beth yw cael barn rhywun o'r tu allan ar ein cynlluniau. Cefais y pleser o gwmi Wayne unwaith eto ar ddiwedd mis Mai eleni.

Tri gweithgarwch

Mae tri gweithgarwch penodol yr ydym yn ymhél â hwy gyda CWM ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Datblygu Medrau ar waith yng Nghaerdydd gydag eglwys Ebeneser, ac yr ydym yn chwilio ar hyn o bryd am oedolyn ifanc arall ar gyfer y flwyddyn academaidd fydd yn dechrau ym mis Medi.

Ar yr un pryd, yr ydym yn gweithio ar gais am nawdd pellach gan CWM ar gyfer pedwaredd Rhaglen Genhadol. Hwn yw'r lled-enwog MSP4 yr ydym yn sôn amdano o dro i dro – a *Mission Support Programme* yw ystyr y llythrennau 'MSP'.

Yn drydydd, yr ydym yn yml cychwyn prosiect newydd o'r enw 'Clywed Cri Duw', a bydd grŵp bychan yn dod at ei

oedd yr emyn cyntaf i'w ganu yn yr oedfa ddatlu. Cafwyd te parti yn y ffestri – wedi ei baratoi gan wragedd y capel – yn y prynhawn gyda dros 80 o bobl yn bresennol wedi i wahoddiad agored fynd allan at gyfeillion ac aelodau capeli eraill y gymdoeth. Da hefyd oedd cael cwmni dau o gyn-weinidogion Gibeia, sef y Parchedigion Dewi Lloyd Lewis a Gwilym Wyn Roberts a rannodd rai o'u hatgofion ar ddiwedd y te cyn i bawb symud i'r capel ar gyfer y gwasanaeth.

Croeso a Chyfarchion

Croesawyd pawb i'r dathliad gan Mair Thomas, un o ddiaconiaid Gibeia a gyflwynodd ymddiheuriadau a chyfarchion y Parchg Meirion Sewell, un arall o'r cyn-weinidogion a oedd yn methu bod yn bresennol. Cafwyd cyfarchion a dymuniadau da gan y Parchg Ddr Geraint Tudur ar ei ran ef yn bersonol ac ar ran Undeb yr Annibynwyr a hefyd oddi wrth Dafydd Iwan ar ran teulu'r diweddar Barchg Gerallt Jones.

Roedd nifer dda o aelodau capeli'r cylch wedi dod i'r gwasanaeth a oedd yng ngofal y Parchg John Gwilym Jones, a hefyd nifer o blant yr eglwys – rhai wedi dod o gryn bellter i ymuno yn y dathlu ac i rannu hen atgofion. Roedd Eiddwen Francis wedi trefnu arddangosfa o hen luniau a oedd yn dangos bywyd a gweithgaredd Gibeia dros gyfnod o flynyddoedd maith a'r rhain wedi creu llawer o ddiwedd ac wedi dod â llawer o atgofion yn ôl.

Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn a braf oedd gallu mwynhau'r cyfle i gymdeithasu cyn i bawb droi am adref.

gilydd yn Nhŷ John Penri i drafod sut y mae codi ymwybyddiaeth ymhlith yr eglwysi o'r angen i fod yn fwy cenhadol. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ar y cyd ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

I ddod yn ôl at ymweliad Wayne Hawkins yn mis Mai, manteisiwyd ar y cyfle i'w gael i arwain rhai o'r gweinidogion yn un o'r dyddiau arbennig a gynhelir gyda hwy ddwywaith y flwyddyn. Daw gweinidogion y de at ei gilydd yn y Tymbl Uchaf, a gweinidogion y gogledd yng Nghyffordd Llandudno, a Robin Samuel sydd bellach yn trefnu cyfarfodydd y de, a Casi Jones gyfarfodydd y gogledd. Diolch i'r ddau ohonynt am ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw.

Mae'r Undeb hefyd yn nodi Ysgol Haf y Gweinidogion sy'n cwrdd yng Nghaerfyrddin. Diolchwn i'r Pwyllgor am drefnu'r rhaglen, ac wrth dymuno bendith

parhad ar y dudalen gefn

Colocwïwm Kingston, Jamaica

Yng nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr eleni fe gafwyd adroddiadau gan Mr Richard Morgan a Dr Fiona Gannon am eu hymweliad ag ymgynghoriad CWM am "Economi Bwyd", yn Jamaica. Dyma grynodeb o'r hyn a ddywedodd Richard Morgan



Richard Morgan

Ym mis Ionawr eleni bu Dr Fiona Gannon a minnau yn gynrychiolwyr yr Undeb mewn Colocwïwm yn Kingston, Jamaica – cyfarfod a drefnwyd gan eglwys Gorllewin Ewrop ac eglwys y Caribî sy'n perthyn i CWM. Fy mhwrpas y prynhawn 'ma yw ceisio gosod y colocwïwm mewn cyd-destun hanesyddol a chyfoes, tra bydd Fiona yn sôn am gynnwys y trafodaethau ac am y datganiad a gafwyd ar ddiwedd y colocwïwm. Yr ydym hefyd wedi neilltuo peth amser ar gyfer cwestiynau a sylwadau.

Creu Pensaernïaeth Ariannol

Teitl y colocwïwm i ddechrau: 'Creu Pensaernïaeth Ariannol ac Economaidd Ryngwladol Newydd'. Teitl sy'n deillio o gynhadledd eciwmenaidd a gynhaliwyd yn Sao Paulo, Brasil yn 2012 pan ddaeth cynrychiolwyr o Gyngor Eglwys y Byd, Cymuned Eglwys Diwygiedig y Byd ac CWM ynghyd. Arweinwyd y cynadledwyr i greu yr hyn sydd bellach yn cael ei alw yn Ddatganiad Sao Paulo, a bu'r datganiad hwn yn sylfaen i'n trafodaethau yn Kingston. O ran partneriaid rhaid hefyd ychwanegu Ffederasiwn yr Eglwys Lwtheraidd sydd bellach wedi ymuno yn y broses.

Rhannu'n Bedair

Er mwyn hyrwyddo'r trafodaethau rhannwyd eglwys CWM i bedwar rhanbarth, sef (1) Affrica (2) Asia (3) Ynysoedd y Môr Tawel a (4) Gorllewin Ewrop ac Ynysoedd y Caribî. Y bwriad yw y bydd cynrychiolwyr o'r eglwys yn y rhanbarthau hyn yn cyfarfod mewn tri colocwïwm yr un. Eisoes y mae eglwys rhanbarth Affrica wedi cwblhau'r broses mewn tair cyfarfod, eglwys Asia wedi cyfarfod dwywaith, eglwys y Môr Tawel unwaith ac eglwys Gorllewin Ewrop a'r Caribî unwaith hefyd, sef y cynhadledd y bu Fiona a minnau ynddo. Cynhelir y cyfarfod nesaf i ni yn Reading, Lloegr yn mis Medi eleni, a'r trydydd colocwïwm yn Guyana yn mis Medi 2018. Yn y cyfarfodydd hyn, fel yn Kingston, daw cynrychiolwyr ynghyd o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Y Ffederasiwn Cynulleidfaol, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, Undeb Cynulleidfaol Guyana ac Eglwys Unedig Jamaica ac Ynysoedd Cayman.

Amcan yr Ymgynghoriad

Hoffwn droi at Colocwïwm Kingston a cheisio crynhoi yr amcan mewn un brawddeg (er mor anodd yw hynny) a cheisio wedyn gosod yr amcan hwn mewn cyd-destun mwy eang. Yr amcan ganolog yw : i alluogi eglwys CWM i fyfyrw uwchben, ac i drafod achosion creiddiol anghyfartaledd, tlodi a dinistrio eicolegol yn y Caribî ac yng Ngorllewin Ewrop. Mae'n dilyn bod yma ddau brif bwyslais, sef (i) anghyfartaledd a thlodi a (ii) niwed i'r amgylchedd. Rhaid ychwanegu y pwysigrwydd o astudio'r berthynas rhwng y ddau. Mae angen hefyd astudio'r ddau o fewn cyd-destun globaleiddio cyfoes. Rhaid datgan o'r cychwyn bod i globaleiddio rhai agweddau cadarnhaol. Nid oes unrhyw amheuaeth, os siarad yr ydym am **dlodi absoliwt**, bod globaleiddio cyfoes wedi llwyddo i godi miliynau o bobl allan o'r fath dlodi; yn arbennig felly mewn gwledydd poblog fel yr India a China. Ond noder y diffiniad o dlodi a ddefnyddir – rheini sy'n goroesi ar lai na dwy doler y dydd. Ond os siarad yr ydym am **dlodi perthynol ac anghyfartaledd** mae'r canlyniadau yn bur washanol. Pu'n ai yn siarad am gymhariaethau rhwng gwledydd neu o fewn gwledydd nid oes unrhyw amheuaeth bod y gwahaniaethau hyn ar gynydd – a bod y gwahaniaethau rhwng y mwyaf cyfoethog a'r mwyaf tlawd wedi cynyddu'n sylweddol. Fe'n rhybuddwyd gan Adroddiad Brandt mor bell yn ôl a 1985 am y peryglon o weld y gwahaniaethau hyn yn chwyddo.

Her Fawr

Mae rhaglen waith CWM trwy dri colocwïwm ar draws pedwar rhanbarth byd-eang yn ein gwahoddi i herio'r gyfundrefn ariannol ac economaidd, ac i geisio dylanwadu ar bwerau seciwlar ein byd i newid cyfeiriad. Ffolineb byddai meddwl bod hyn yn mynd i fod yn rhwydd gan bod grym globaleiddio cyfoes wedi pereiddio'n ddwfn i'n bywydau fel unigolion, eglwys, cymunedau a gwledydd. Fel hyn y nodwyd y sialens ar ddiwedd pumed Cymanfa Cyngor Eglwys y Byd yn Nairobi yn 1975: 'tra yr ydym yn cyffesu Crist sy'n rhyddhau ac yn uno, yr ydym yn byw o fewn strwythurau economaidd sy'n ein caethiwo i gyfoeth ac i amddiffyn y prosesau hynny sy'n ein cadw ar wahan'

Felly mae yma her fawr i'r eglwys. Bu Colocwïwm Kingston yn gyfrwng i'n hysbrydoli i geisio ymateb i'r her, trwy gosod pwyslais ar y canlynol:

- (1) os ydym am fod yn effeithiol yn ein herio rhai gweithio'n eciwmenaidd
- (2) y pwysigrwydd o wneud y defnydd gorau o'r dulliau cyfathrebu cyfoes i adeiladu cymunedau a phartneriaethau sy'n barod i herio



- (3) y pwysigrwydd o dyfu cysylltiadau gyda chyrrff tu allan i'r eglwys; creu clymblaid o wahanol gyrff sydd yn medru ymgrychu a dwyn pwysau, fel digwyddodd yn y degawd ddiwethaf gyda'r ymgyrch i leihau pwysau'r ddyled ar wledydd tlawd y byd (ymgyrch Jiwbili y bu nifer ohonom yn ran ohono)
- (4) bydd bynnag ein teimladau am ganlyniad y referendum Brexit, bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ein rhyddhau, os dymunwn hynny, o gyfundrefn tollau ac amddiffyn diwydiannau trwy gymorthdaliadau sydd wedi niweidio cyflwr economaidd nifer o wledydd tlawd y byd. Yr enghraifft glasurol yw dinistrio y diwydiant siwgr yn Ynysoedd y Caribî yn rhannol trwy estyn cymorthdaliadau i fferwyr sy'n tyfu'r betys melys [sugar beet] o fewn gwledydd yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid cofio, wrth gwrs, bod newid yn y maes hwn yn gosod her arbennig i amaethwyr Cymru sy'n dibynnu'n drwm ar gymorthdaliadau

yr angen i ni – fel Cristogion unigol – gydnabod ein rôl yn amddiffyn y gyfundrefn bresennol; bod yn barod i herio'r gyfundrefn honno a hynny er mwyn ad-drefnu'r gyfundrefn i greu gwahanol math o globaleiddio fel '**bod modd i bawb gael bywyd yn ei holl gyflawnder**' (Ioan 10:10). Dyma'r adnod o Efengyl Ioan a ddefnyddwyd fel arwyddbost beiblaidd Colocwïwm Kingston.

Richard Morgan

Oedfa o Ddiolch wrth Ddatgorffori Seion, Porth Tywyn

Pregethir gan
Y Parchg Ddr Geraint Tudur

**Dydd Sul, 23ain Gorffennaf
am 3 o'r gloch**

O hynny ymlaen fe fyddwn yn cyd-addoli gydag Eglwys Jerusaleml, Porth Tywyn.

Adrienne Thomas, Ysgrifennydd
01554 834118

Barn Annibynnol

Sioe Frenhinol Cymru

Bu llawer un wrthi ers misoedd os nad blynyddoedd, yn paratoi'r Sioe Fawr, y Sioe Amaethyddol fwyaf yn Ewrop.



Eurwen Richards

Nid dim ond amaeth sy'n cael ei glodfori yn Llanelwedd ond popeth sy'n ymwneud â bywyd a bwyd. Ynghyd â'r anifeiliaid ac offer fferm, y mae bwydydd – cig, caws, menyng, mêl, blodau, llyisiau – crefftwaith o bob math, a lle amlwg i weithgareddau Merched y Wawr a Sefydliad y Merched. Cawn hefyd theatr yr adeilad gneifio a chystadlu brwd, yn enwedig rhwng bechgyn Cymru a Seland Newydd.

Unigrwydd

Ymysg yr ymfalchïo, y clodfori, mae cyfle i gymdeithasu, dal i fyny â'r hyn sydd wedi digwydd yn ystod y misoedd aeth heibio, a hefyd edrych ymlaen at y dyfodol. Bywyd unig yw bywyd y ffermwr. Lle bu cymdogaeth o ffermydd a theuluoedd, nawr yn aml, un ffermwr sydd yn gofalu am y cyfan, a'r gymdogaeth wedi diflannu. Mae'r tir yn parhau i gael ei warchod ond cwyd y cwestiwn 'pwy sy'n gwarchod y ffermwr?'

Pryder

Mae'r ansicrwydd, pryder, ac yn aml y gofid, wedi cynyddu yng nghefn gwlad, a'r dyfodol, yn enwedig gyda Brexit ar y gorwel, yn edrych yn fregus iawn i lawer un. Bu ffermio'r tir a chynhyrchu bwyd yn rhan o fywyd dyn erioed.



Royal
Welsh
Agricultural
Society

Bu mwy nag un ymgyrch yn ddiweddar i geisio sicrhau a phrofi tarddle ein bwyd a thalu pris teg amdano. A chymaint o'n bwydydd yn cael eu mewnfario, mae hyn yn bwysig er mwyn cefnogi ffermwyr a chefn gwlad Cymru.

Amrywiaeth

Gwelwn lawer un yn y Sioe yn pwysu ar ei ffon neu ar y ffens, yn trafod uchel bwyntiau a gwendidau'r anifeiliaid yn y cylch. Mae'n amlwg bod yr arfer hwn yn gymdeithasu pleserus a bendithiol. Mae'n gyfle i rannu profiadau, gofidiau a gobeithion. Gwelir rhai yn tynnu'r un llinyn mesur dros y tractorau a'r offer eraill sydd wedi cymryd lle pobl ar ein ffermydd. Er eu bod wedi lleihau mewn nifer, y mae peth ieuentid yn aros yng nghefn gwlad, ac mae gan y clybiau ffermwyr ifanc le amlwg a phwysig yn Llanelwedd. Bydd cystadlu a gweithgareddau arbennig yn digwydd yn eu hadran hwy o'r Maes a llawer ohonynt yn cynrychioli'r hyn a wneir yng nghefn gwlad.

Cyfraniad yr Eglwys

Oes gan ein heglwys a Christnogaeth rhywbeth i'w gynnig ar Faes y Sioe? Yr ateb yn bendant yw, 'Oes'. Mae croeso ym Mhabell yr Eglwys Ynghyd (Cytûn) i ymuno yn yr oedfaon boreol am 8.00 ac am 11.00, ac mae cyfle trwy'r dydd i sgwrsio, trafod, gweddïo, mwynhau lluniaeth ysgafn, ac os daw'r chwant, prynu ambell i lyfr. Ond yr hyn sy'n bwysig fyth i fi, yw'r caplaniaid sy'n crwydro'r maes yn ystod y dydd, a'r llefydd bydd yr ifanc yn eu mynychu yn yr hwyr. Dyma'r genhadaeth bwysicaf ar y maes, nid yn unig cyfle i sôn am gariad a gras ein Harglwydd ond cyfle i weinidogaethu mewn ffordd ymarferol, a hwnnw naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r ddwy iaith yn gyfartal yn Llanelwedd, a da yw hynny. Rydych yn clywed y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd wrth

gerdded o gylch, ond mae 'na brinder caplaniaid sy'n gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, beth amdani, chi sy'n darllen *Y Tyst*?

Nid yn ôl y golwg

Fe fydda i yn treulio'r rhan fwyaf o'm hamser gyda'r bwydydd llaeth ac, fel y gŵyr darllenwyr *Y Tyst*, gyda'm hoff fwyd sef caws. Ar faes y sioe, bydd pobl yn cerdded heibio'r byrddau yn edrych ar y blociau 20 kilo. Prin yw'r cyfle i flasau a phrynu ond cewch wneud hynny yn y Neuadd Fwyd. Fel hen law bellach ar feirniadu, mi wn nad edrychiad, yr hyn sy'n plesio'r llygad, yw'r pennaf brawf, ond yn hytrach yr ansawdd a'r blas. Onid dyna'r gwir am fyw ac ame ein bywydau ni? Rhaid pwysu a mesur, profi'r cyfan cyn dod i benderfyniad. Dyna a ddysgais dros y blynyddoedd, wedi profi o gariad a maddeuant, gallaf ond diolch i Dduw â llaw a llais a chalon, cans rhyfeddodau mawr a wnaeth i ni blant dynion.

Eurwen Richards

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

